Association of Independent Museums

The AIM Hallmarks of Prospering Museums

Canllawiau AIM i Fyrddau

Gwneud archwiliad llywodraethu

Awdur: Adrian Babbidge

Cyflwyniad

Mae archwiliad llywodraethu yn broses o archwilio dogfennau a phrosesau er mwyn:

- sicrhau y caiff unrhyw newidiadau yn y gyfraith neu reoliadau eu hystyried; a
- galluogi i ymddiriedolwyr gael y newyddion diweddaraf o ran newidiadau mewn arfer da.

Yn aml, caiff y rhain eu gwneud fel rhan o archwiliad llywodraethu mwy sydd yn canolbwyntio ar rolau, swyddogaethau ac effeithlonrwydd bwrdd; dylunir archwiliad llywodraethu i edrych ar brosesau, ac nid ar y materion ehangach hyn.

Tra bod archwiliadau llawn fel arfer yn cael eu gwneud yn afreolaidd, wedi'u gyrru gan amgylchiadau penodol, dylai archwiliadau llywodraethu gael eu gwneud fel mater o'r patrwm gweithio rheolaidd yn hytrach na fel prosiect unigryw. Dylent fod yn y disgrifiad rôl o berson unigol yn y swyddfa fel y cadeirydd, ysgrifennydd y bwrdd, neu ymddiriredolwr penodol. Dim ond pan gaiff yr ymarfer ei anwybyddu y mae'n dod yn rywbeth beichus; mae'n bosib i ddelio gyda llawer o'r pynciau hyn o fewn munudau. Rhaid i ganlyniadau'r archwiliad ac unrhyw weithredoedd angenrheidiol gael eu hadrodd, eu trafod a'u gweithredu gan yr ymddiriedolwyr.

Rhestr Wirio

Mae'r rhestr wirio canlynol – sydd yn seiliedig ar y canllaw a gyhoeddwyd gan y Comisiynau Elusennnol ar gyfer Lloegr a Chymru a Gogledd Iwerddon, Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau yr Alban, a'r *Cod Llywodraethu Elusennau* – yn sylfaen i archwiliad fel hyn. Rhaid i rai o'r tasgau a restrir gael eu gwneud yn flynyddol (y peth gorau i wneud gyda llawer ohonynt yw mynd i'r afael â nhw ar y cyd â pharatoi adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr); tra bod angen rhai eraill yn llai aml.

Mae gan Gynllun Achredu Amgueddfeydd ei ofynion ei hun i fabwysiadu ac adolygu polisïau allweddol ond dylai amgueddfeydd bob amser gadw at eu hamserlenni eu hunain i adolygu a mabwysiadu polisïau yn hytrach na bod hyn yn cael ei yrru gan ofynion gweinyddol Achredu Amgueddfeydd.

Mae amgueddfeydd annibynnol yn adlewyrchu amrywiaeth enfawr o raddfa a chymhlethdod, a nod y rhestr wirio hon yw cynnwys bob math. Nid yw'n bwriadu awgrymu bod un yn addas i bawb, ac mae'n darparu canllaw yn unig ar faterion sydd angen eu hystyried. Dylai ymddiriedolwyr bob amser ddefnyddio beirniadaeth a gweithredu mewn ffordd sydd yn gymesur i faint a natur yr amgueddfa y maent yn gyfrifol amdani. Dylent benderfynu ar ba rai o'r gofynion a restrir yma sydd yn berthnasol i'w sefydliad a dileu unrhyw rai nad ydynt yn berthnasol.

Blynyddol	Heb gyflawni	Wedi cyflawni'n rannol	Wedi cyflawni'n rannol	Camau gweithredu
Mae gweithgareddau'r amgueddfa yn unol â'r gwrthrychau/pwrpasau a gyfeirir atynt yn ei dogfen lywodraethu	☐	☐	☐	
Mae gofynion y dogfen lywodraethu yn cael eu hateb, gan gynnwys, lle bo'n briodol, y rhai sydd yn cyfeirio at gyfarfodydd cyffredinol	☐	☐	☐	
Mae'r ffeilio angenrheidiol wedi cael ei wneud gyda'r rheoleiddiwr elusennau perthnasol – Datganiadau a chyfrifon blynyddol – Newidiadau i'r ddogfen lywodraethu	☐ ☐	☐ ☐	☐ ☐	
Os ydy'r elusen hefyd yn gwmni, mae'r ffeilio angenrheidiol wedi cael ei wneud â Thŷ'r Cwmnïau – Cyfrifon Blynyddol – Datganiad Cadarnhau – Newidiadau i'r ddogfen lywodraethu, cyfarwyddwyr a'u manylion, archwilwyr, a chynigion arbennig	☐ ☐ ☐	☐ ☐ ☐	☐ ☐ ☐	
Mae pob ymddiriedolwr wedi cwblhau a llofnodi'r ffurflenni canlynol – Cadarnhad o'u cymhwysedd i wasanaethu – Datganiad o ddiddordebau gydag unrhyw bobl gysylltiedig	☐ ☐	☐ ☐	☐ ☐	

Blynyddol	Heb gyflawni	Wedi cyflawni'n rannol	Wedi cyflawni'n rannol	Camau gweithredu
Mae sefydlu pob ymddiriedolwr a benodwyd yn ddiweddar wedi'i gwblhau - Cyfarfod croeso gyda'r Cadeirydd a sesiwn briffio ar sut y mae'r bwrdd yn gweithio, amgylchedd gweithredu'r Amgueddfa a'r rhanddeiliaid - Pecyn gwybodaeth/llawlyfr llywodraethu - Briffio gan reolwyr (lle bo'n briodol)	☐ ☐ ☐	☐ ☐ ☐	☐ ☐ ☐	
Yn Lloegr a Chymru, mae gweithgareddau'r amgueddfa wedi cael eu hadolygu yn unol â chanllaw er budd y cyhoedd y Comisiwn Elusennau	☐	☐	☐	
Mae'r wybodaeth yn adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr yn cyflwyno safbwynt cytbwys o gyraeddiadau a heriau'r Amgueddfa i randdeiliaid a'r cyhoedd cyffredinol	☐	☐	☐	
Mae'r polisïau canlynol wedi cael eu hadolygu mewn perthynas â deddfwriaeth bresennol a gofynion eraill: - Casglu - Gwaredu } Y polisi 'Datblygu Casgliadau' sydd angen ar Achredu Amgueddfeydd - Cronfeydd - Iechyd a Diogelwch - Cyfleoedd Cyfartal/Cydraddoldeb - Diogelu Plant a Phobl Agored i Niwed - Diogelu data a Chyfrinachedd - Rheoli risg (gan gynnwys trefniadau ar gyfer cynllunio trychineb ac argyfwng) - Taliadau i ymddiriedolwyr (yn unol â'r ddogfen lywodraethu) - Buddsoddiad (lle bo'n briodol) - Asedau treftadaeth	☐ ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ ☐	☐ ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ ☐	☐ ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ ☐	
Mae cofrestri'r Amgueddfa wedi eu diweddaru - Cofrestr aelodau sydd yn gymwys i bleidleisio (lle bo'n berthnasol) - Cofrestr(i) ymddiriedolwyr/cyfarwyddwyr - Cofrestr dderbynodi	☐ ☐ ☐	☐ ☐ ☐	☐ ☐ ☐	
Mae proses barhaus i nodi ymddiriedolwyr potensial a recriwtio ymddiriedolwyr newydd	☐	☐	☐	

Blynyddol	Heb gyflawni	Wedi cyflawni'n rannol	Wedi cyflawni'n rannol	Camau gweithredu
Mae anghenion a chyfleoedd hyfforddiant ymddiriedolwyr wedi cael eu hystyried yn weithredol a'u dilyn i fyny	☐	☐	☐	
Mae cyfundrefnau yn eu lle i helpu i'r bwrdd fonitro cynnydd trwy gydol y flwyddyn a gwerthuso effeithlonrwydd gwaith yr Amgueddfa	☐	☐	☐	
Mae cynlluniau busnes a gwaith blynyddol, gyda'r cyllidebau cysylltiedig wedi cael eu cynhyrchu	☐	☐	☐	
Mae camau gweithredu wedi eu cymryd er mwyn sicrhau bod adeiladau safle'r Amgueddfa yn cael eu cynnal a'u cadw yn briodol	☐	☐	☐	
Mae systemau ariannol yn eu lle gan yr amgueddfa ac mae'r rhain yn cael eu dilyn	☐	☐	☐	
Mae'r ymddiriedolwyr yn derbyn adroddiadau ariannol cywir, prydlon a rhwydd i'w deall ymhob cyfarfodd bwrdd	☐	☐	☐	
Mae'r ymddiriedolwyr wedi asesu'r risgiau a wynebir gan yr amgueddfa (yn y byr-dymor a'r hir-dymor, ac wedi gweithredu i leihau'r risgiau hynny)	☐	☐	☐	
Mae ymgynghori ffurfiol a/neu gyfathrebu rheolaidd gyda rhanddeiliaid allweddol wedi digwydd	☐	☐	☐	

Bob 2/3 Blynedd	Heb gyflawni	Wedi cyflawni'n rannol	Wedi cyflawni'n rannol	Camau gweithredu
Mae sicrwydd yswiriant yr amgueddfa wedi cael ei adolygu yng ngoleuni ei gweithgareddau presennol a'i chynlluniau ar gyfer y dyfodol	☐	☐	☐	
Mae cylch gorchwyl/disgrifiadau rôl/ dirprwyo/rheoliadau ar gyfer ymddiriedolwyr, deiliaid swyddfa, aelodau pwyllgor sefydlog a gweithgorau yn ateb gofynion presennol a rhai disgwyliedig ar gyfer y dyfodol	☐	☐	☐	
Mae archwiliad o gefndir, profiad a sgiliau aelodau'r bwrdd wedi cael ei wneud yn ystod y dair blynedd ddiwethaf	☐	☐	☐	

Bob 2/3 Blynedd	Heb gyflawni	Wedi cyflawni'n rannol	Wedi cyflawni'n rannol	Camau gweithredu
Mae'r polisïau canlynol wedi cael eu hadolygu yn ystod y dair blynedd ddiwethaf: - Recriwtio a rheoli gwirfoddolwyr, gan gynnwys talu treuliau - Polisïau rheoli cyflogeion (gan gynnwys recriwtio, amodau gwasanaeth, diswyddo, ymddeol a sefydlu) - Ebost/rhyngrwyd, a chyfryngau cymdeithasol - Diogelwch - Codi arian a nawdd	☐ ☐ ☐ ☐ ☐	☐ ☐ ☐ ☐ ☐	☐ ☐ ☐ ☐ ☐	
Mae cyfundrefnau a chanllawiau priodol yn eu lle i wahaniaethu rhwng dyletswyddau cyflogeion, gwirfoddolwyr a gweithwyr eraill, ac mae'r rhain yn gweithio'n dda	☐	☐	☐	
Mae systemau rheoli priodol yn eu lle ar gyfer cyflogeion, gwirfoddolwyr a gweithwyr eraill	☐	☐	☐	
Mae'r gofynion cyfreithiol ar gyfer recrwitio a rheoli cyflogeion, gweithwyr a gwirfoddolwyr yn cael eu hateb	☐	☐	☐	
Mae cyfarfodydd yr ymddiriedolwyr ac is-bwyllgorau yn gweithio'n dda	☐	☐	☐	
Mae adroddiadau i'r ymddiriedolwyr yn cael eu hysgrifennu yn glir, ac mae cofnodion yn darparu cofnod clir o'r penderfyniadau a wnaed, a'r rhesymau dros y penderfyniadau hynny	☐	☐	☐	
Mae polisïau Achredu Amgueddfeydd yn cael eu hadolygu mewn cysylltiad â gofynion y Cynllun: - Dogfennau - Gofal a chadwraeth casgliadau - Mynediad	☐ ☐ ☐	☐ ☐ ☐	☐ ☐ ☐	

Bob 5 mlynedd	Heb gyflawni	Wedi cyflawni'n rannol	Wedi cyflawni'n rannol	Camau gweithredu
Mae'r ddogfen lywodraethu yn parhau i ateb anghenion yr amgueddfa	☐	☐	☐	
Mae'r bwrdd yn gweithio yn ôl cynllun ysgrifenedig sydd yn disgrifio beth y mae'r amgueddfa eisiau ei chyflawni yn ystod y cyfnod presennol o bum mlynedd	☐	☐	☐	
Mae'r polisïau canlynol wedi cael eu hadolygu o fewn y bum mlynedd ddiwethaf				
– Cyfathrebu a chyfryngau	☐	☐	☐	
– Cwynion	☐	☐	☐	
– 'Chwythu'r chwiban'	☐	☐	☐	
– Gwrthdaro mewnol o fewn y bwrdd	☐	☐	☐	
– Anrhegion a lletygarwch	☐	☐	☐	
– Anghydfod a Disgyblu Cyflogeion	☐	☐	☐	
– Arfarnu Cyflogeion (gan gynnwys ar gyfer yr uwch-reolwyr)	☐	☐	☐	
– Polisi Amgylcheddol ('materion gwyrdd') gan gynnwys y polisi 'cynaliadwyedd amgylchedddol' sydd angen ar Achredu Amgueddfeydd	☐	☐	☐	
– Dewis cyflenwr	☐	☐	☐	
Mae perfformiad archwilydd/arholwr allanol yr Amgueddfa wedi cael ei adolygu	☐	☐	☐	
Mae pwyllgorau sefydlog yn gweithio'n dda, neu wedi eu nodi fel angen adolygiad	☐	☐	☐	

Am yr awdur:

Mae Adrian Babbidge, mewn un ffordd neu ei gilydd, wedi bod yn cynghori amgueddfeydd annibynnol am fwy na 35 blynedd. Erbyn hyn mae e wedi rhannol ymddeol, ond mae'n parhau i ymchwilio ac ysgrifennu am faterion sydd yn perthyn i'r sector amgueddfeydd a threftadaeth.

Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol (AIM)
3 Chestnut Grove, Ludlow
Shropshire SY8 1TJ
www.aim-museums.co.uk

Hawlfraint © 2018 Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol ac Adrian Babbidge